Dadansoddi ar gyfer Polisi
YMCHWIL GYMDEITHASOL Y LLYWODRAETH
GSR
GOVERNMENT SOCIAL RESEARCH
Analysis for Policy

Ymchwil gymdeithasol

Social research

Rhif: 53/2012

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

# Costau a Manteision Gweithio Trosglwyddo Allweddol: dadansoddiad o bum prosiect peilot

## Adroddiad Cryno

# Costau a Manteision Gweithio Trosglwyddo Allweddol: dadansoddiad o bum prosiect peilot

## Adroddiad Cryno

**Dr Duncan Holtom a Dr Sarah Lloyd-Jones**
**gyda Rhodri Bowen a Jack Watkins**

**Yr Uned Pobl a Gwaith**

Barn yr ymchwilwyr a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid yw o reidrwydd yn adlewyrchu barn Llywodraeth Cymru

I gael rhagor o wybodaeth, cysyllltwch â:
Dr Karen Bathgate
Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
Ffôn: 02920 821628
E-bost: karen.bathgate@wales.gsi.gov.uk

Ymchwil Gymdeithasol Llywodraeth Cymru, 2013
978 0 7504 8353 7
© Hawlfraint y Goron 2013

# Cynnwys

Tablau ........ 2
Acronymau a ddefnyddir ........ 3
1. Cyflwyniad ........ 4
2. Yr astudiaeth ........ 6
3. Manteision gweithio trosglwyddo allweddol ........ 8
Y manteision i deuluoedd ........ 10
Y manteision i’r wladwriaeth ........ 11
Y manteision i gymdeithas ........ 12
4. Costau gweithio trosglwyddo allweddol ........ 12
Y gost i’r wladwriaeth ........ 13
Tabl 1. Brasamcan o gyfanswm y gost fesul achos fesul blwyddyn ........ 15
5. Casgliad ........ 16
Llyfryddiaeth ........ 22

# Tablau

Tabl 1. Brasamcan o gyfanswm y gost fesul achos fesul blwyddyn ........ 15

## Acronymau a ddefnyddir

| | |
|---|---|
| CCNUK | Rhwydwaith Cydlynu Gofal Dros y DU |
| DCSF | Yr Adran Plant, Ysgolion a Theuluoedd |
| DoH | Yr Adran Iechyd |
| CCC | Cynulliad Cenedlaethol Cymru |
| LlCC | Llywodraeth Cynulliad Cymru (cyn 2011) |

# 1. Cyflwyniad

1.1. Yn 2008, sefydlwyd pum prosiect peilot i ddatblygu gweithio trosglwyddo allweddol yng Nghymru i bobl ifanc anabl, neu'r rheiny ag anghenion cymhleth[1], rhwng 14-25 oed. Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno canfyddiadau dadansoddiad o gostau a manteision gweithio trosglwyddo allweddol yn y prosiectau hyn.

1.2. Mae cyfnodau trosglwyddo yn gallu bod yn amser anodd i unrhyw berson ifanc. Mae'n gallu bod yn anodd ceisio penderfynu beth i'w wneud ar ôl gadael yr ysgol, ble i fyw a chyda phwy, pa swydd i'w dewis a pha gamau i'w cymryd er mwyn cael y swydd honno. Mae pobl ifanc anabl a phobl ifanc ag anghenion cymhleth yn aml yn wynebu heriau ychwanegol wrth ymdopi â newidiadau i'r gwasanaethau y maent yn dibynnu arnynt. Nod gweithio trosglwyddo allweddol yw cynnig gweithiwr dynodedig i weithio gyda'r person ifanc a, lle bo'n briodol, y teulu, er mwyn paratoi ar gyfer y cyfnod o drosglwyddo, ac er mwyn ymdopi'n llwyddiannus â'r cyfnod trosglwyddo hwnnw.

### Cefndir a chyd-destun polisi

1.3. Mae amrywiaeth o fentrau polisi a chanllawiau ar gael sydd â'r nod o wella a chydgysylltu gwasanaethau er mwyn cefnogi cyfnodau trosglwyddo pobl ifanc sydd ag anghenion dwys a chymhleth. Er enghraifft, mae Cod Ymarfer Anghenion Addysgol Arbennig Cymru (CCC, 2004) yn datgan y dylai bod gan yr holl bobl ifanc â datganiadau anghenion addysgol arbennig (SEN) gynllun trosglwyddo erbyn iddynt gyrraedd blwyddyn 9 yn yr ysgol (sef 13-14 oed), ac y dylai'r cynllun hwn gael ei adolygu o leiaf unwaith y flwyddyn tan iddynt

[1] Mae'r Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol yn pennu ansawdd y gwasanaethau y mae gan blant, pobl ifanc a'u teuluoedd yr hawl i ddisgwyl a'u derbyn (LlCC, 2006:i). Mae'r safon Fframwaith ar drosglwydo yn trafod "Pobl ifanc sydd angen gwasanaethau parhaus, megis y rheiny sy'n anabl neu sydd â salwch cronig, pobl ifanc â salwch neu anhwylderau meddwl parhaus, pobl ifanc agored i niwed a'u teuluoedd a'u gofalwyr, a'r rheiny sy'n gadael gofal" (LlCC, 2006:54).

adael yr ysgol. Mae’r cod ymarfer hefyd yn egluro sut y dylai ysgolion, y gwasanaeth addysg, Gyrfa Cymru, gwasanaethau cymdeithasol a’r gwasanaethau iechyd gydweithio i gyfrannu at y cynlluniau trosglwyddo hyn.

1.4. Er gwaethaf y canllawiau hyn, erys canlyniadau’n wael ar gyfer pobl ifanc ac oedolion sydd ag anableddau dwys a lluosog neu gymhleth, yn nhermau sicrhau cyflogaeth ac annibyniaeth (CCC, 2007). Canfu gwaith ymchwil yng Nghymru a ledled y DU fod llawer o bobl ifanc yn teimlo nad ydynt yn barod nac yn cael y gefnogaeth sydd ei hangen arnynt ar ôl y cyfnod trosglwyddo (ibid; Sloper et al, 2010).

**Prosiectau Peilot y Gweithiwr Trosglwyddo Allweddol**

1.5. Yn 2007, cyhoeddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru arian grant gwerth £1.5 miliwn i ddatblygu gweithio trosglwyddo allweddol yng Nghymru. Ym mis Mehefin 2008, estynnwyd gwahoddiad i awdurdodau lleol wneud cais i gynnal cynlluniau peilot gweithio trosglwyddo allweddol. Sefydlwyd pum cynllun peilot i gyd. Sefydlodd pedwar o’r cynlluniau peilot wasanaeth gweithiwr allweddol dynodedig, yn cynnwys pobl broffesiynol wedi’u cyflogi’n benodol i ymgymryd â gweithio trosglwyddo allweddol. Aeth y cynllun peilot arall, Ynys Môn, ati i ddatblygu model nad oedd yn seiliedig ar fodel y gweithiwr allweddol dynodedig. Roedd hyn yn cynnwys naill ai (a) pobl broffesiynol yn darparu gwasanaeth gweithio allweddol i rai teuluoedd ochr yn ochr â’r rôl y maent wedi’u cyflogi ar ei chyfer, megis nyrs cymunedol neu (b) rhieni neu ofalwyr yn darparu gwasanaeth gweithio allweddol ar gyfer eu plentyn. Bu’r cynlluniau peilot yn gweithio gyda mwy na 234 o bobl ifanc dros gyfnod o dair blynedd.

**Gweithio allweddol a chynllunio sy’n canolbwyntio ar unigolyn**

1.6. Mae gweithio allweddol wedi’i ddiffinio fel a ganlyn:

…gwasanaeth, yn cynnwys dwy asiantaeth neu fwy, sy’n cynnig system i blant a phobl ifanc (0-25 mlwydd oed) a’u teuluoedd lle bo gwasanaethau o wahanol asiantaethau yn cael eu cydgysylltu. Mae’n cwmpasu teilwra gwasanaethau unigol yn seiliedig ar asesiad o angen, cydweithredu rhwng asiantaethau ar lefel ymarferol a strategol, a gweithiwr allweddol dynodedig ar gyfer y plentyn a’r teuluoedd a chynnig pwynt cyswllt unigol (gwefan CCNUK).

1.7. Roedd yr holl gynlluniau peilot wedi mabwysiadu methodoleg cynllunio sy'n canolbwyntio ar unigolyn. Mae cynllunio sy'n canolbwyntio ar unigolyn yn adlewyrchu model 'cymdeithasol' (yn wahanol i'r model 'meddygol') o anabledd, yn ymgorffori dull o gynllunio sy'n canolbwyntio ar gryfderau ac yn mynd ati i gynnwys pobl yn weithredol yn y broses gynllunio. Mae dull o gynllunio sy'n canolbwyntio ar unigolyn yn cwmpasu rôl y gweithiwr trosglwyddo allweddol. Mae'n cynnwys cydgysylltu gwasanaethau ar gyfer pobl ifanc a'u teuluoedd (sef rôl draddodiadol y gweithiwr trosglwyddo allweddol) a chefnogi pobl ifanc i benderfynu beth y maen nhw'n ei eisiau o fywyd, ac yna eu helpu i weithio allan sut i sicrhau hynny (sef gweithio trosglwyddo allweddol sy'm defnyddio dull o gynllunio sy'n canolbwyntio ar unigolyn). Mae'r adroddiad yn ystyried effaith rôl y gweithiwr trosglwyddo allweddol, a'r dull cynllunio sy'n canolbwyntio ar unigolyn.

## 2. Yr astudiaeth

2.1. Nod yr astudiaeth yw nodi p’un a oes unrhyw fanteision net yn gysylltiedig â threfniadau gweithiwr trosglwyddo allweddol (TWK) yn y pum ardal peilot, ac asesu'r manteision hynny yn erbyn costau net. At hynny, roedd gofyn i'r astudiaeth werthuso rôl y gweithiwr trosglwyddo allweddol ac effaith yr ymyriad ar brofiad y bobl ifanc a'u teuluoedd wrth iddynt drosglwyddo i fywyd fel oedolion. Roedd yr astudiaeth yn canolbwyntio ar bobl ifanc rhwng 14-19 oed, a chynhaliwyd yr astudiaeth rhwng mis Mai a mis Hydref 2011.

2.2. Roedd yr astudiaeth yn cynnwys ymchwil ansoddol a meintiol. Roedd yr ymgyrch ansoddol yn canolbwyntio'n bennaf ar gostau a manteision gweithio trosglwyddo allweddol fel a brofwyd gan y bobl ifanc a'u teuluoedd a gymrodd ran yn y prosiectau peilot. Roedd yr ymchwil ansoddol yn canolbwyntio'n bennaf ar gostau i'r wladwriaeth.

2.3. Bu i gyfanswm o 20 o bobl ifanc ag anableddau neu anghenion cymhleth gyfrannu at yr astudiaeth, ynghyd ag 18 o aelodau teulu neu ofalwyr. Cynhaliwyd cyfweliadau a grwpiau ffocws i drafod:

- eu perthynas â'u gweithiwr trosglwyddo allweddol, a gwaith y gweithiwr;
- eu cynllun trosglwyddo;
- pa wahaniaeth a wnaeth y gweithio trosglwyddo allweddol, os o gwbl.

2.4. Yn ogystal, cyfarfu'r tîm ymchwilio ag aelodau tîm darparu'r peilot i drafod costau sefydlu a gweithredu gwasanaeth gweithiwr trosglwyddo allweddol, ac i drafod effaith y gwasanaeth hwnnw.

2.5. Aethpwyd ati i ddadansoddi'r data primaidd a gasglwyd yn y cyfweliadau a'r grwpiau ffocws ochr yn ochr â data eilaidd, megis astudiaethau achos a baratowyd gan y cynlluniau peilot, hunanwerthusiadau'r cynlluniau peilot ac arolygon o bobl ifanc neu deuluoedd a gynhaliwyd gan dri o'r cynlluniau peilot.

*Cyfyngiadau'r astudiaeth*

2.6. Gan fod yr astudiaeth wedi cyfweld â nifer bach o bobl ifanc, nid oedd modd iddi gymharu manteision a chostau ar gyfer grwpiau penodol o bobl ifanc, yn seiliedig ar eu hanghenion. Yn ogystal, roedd y dadansoddiad o'r model nad oedd yn seiliedig ar weithiwr dynodedig, a gafodd ei beilota mewn un sir yn unig, yn gyfyngedig gan mai dim ond un person ifanc ac un rhiant y bu modd cyfweld â hwy.

2.7. Nid oedd yr astudiaeth yn cynnwys unrhyw gyfweliadau â phobl ifanc, rhieni neu ofalwyr y tu allan i'r ardaloedd peilot, ac roedd yn tynnu'i ddilysrwydd allanol o astudiaethau eraill ar gostau a manteision gweithio trosglwyddo allweddol a gynhaliwyd mewn rhannau eraill o'r DU. Roedd yr astudiaethau hyn yn dangos, ar y cyfan, bod y canfyddiadau am y manteision yn gyson â chanfyddiadau astudiaethau eraill, er bod tueddiad i'r cynlluniau peilot yng Nghymru nodi costau uwch. Fodd bynnag, gellir priodoli llawer o'r gwahaniaeth yn y costau i wahaniaethau mewn cyd-destun, a gwahaniaethau yn y ffordd y caiff y gweithio trosglwyddo allweddol ei drefnu.

## 3. Manteision gweithio trosglwyddo allweddol

### Y manteision i bobl ifanc

*Profiadau o weithio gyda gweithiwr trosglwyddo allweddol*

3.1 Roedd y bobl ifanc a gafodd eu cyfweld oll yn gadarnhaol ynghylch y gefnogaeth a gawsant gan eu gweithwyr trosglwyddo allweddol. Roedd y rheiny a allai gofio eu cynllun trosglwyddo (sef 11 o'r 20 a gafodd eu cyfweld) yn fodlon neu'n fodlon iawn â'u cynllun. Roedd amrywiaethau amlwg, fodd bynnag, yn yr arwyddocâd yr oedd y bobl ifanc yn ei briodoli i'w cynlluniau ac yn y prosesau cynllunio sy'n canolbwyntio ar unigolyn ar draws y pum ardal peilot.

3.2 Yn gyffredinol, canfu'r astudiaeth nad yw cynllunio sy'n canolbwyntio ar unigolyn yn aml yn newid yr hyn yr oedd ar bobl ifanc eisiau ei wneud. Serch hyn, roedd yn cynyddu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'u dymuniadau ymysg y rheiny sy'n gweithio gyda hwy. Roedd hyn yn ei dro yn helpu'r gweithwyr i gefnogi'r bobl ifanc wrth wireddu eu dyheadau.

*Cefnogi'r broses o drosglwyddo o'r ysgol i'r coleg*

3.3 Yn y mwyafrif o achosion, roedd y gweithwyr trosglwyddo allweddol yn cefnogi pobl ifanc wrth iddynt symud o'r ysgol i'r coleg. Er i'r rhan fwyaf o'r bobl ifanc a aeth i'r coleg ddweud y byddent wedi mynd yno heb gefnogaeth eu gweithiwr trosglwyddo allweddol, roedd tystiolaeth bod y gefnogaeth gan y gweithwyr trosglwyddo allweddol wedi galluogi rhai o'r bobl ifanc i aros yn y coleg, ac/neu wedi'u cefnogi i ddilyn cyrsiau mwy addas.

*Cefnogi'r broses o drosglwyddo o addysg ôl-16 / ôl-19*

3.4 Amlygodd yr astudiaeth fylchau mewn cynllunio trosglwyddo ôl-16 ac ôl-19, gan gynnwys diffyg gwybodaeth am yr hyn y gallai pobl ifanc ei wneud ar ôl gadael y coleg a pha gefnogaeth y gallent ei disgwyl.

3.5 Mewn tair ardal beilot, dywedwyd bod y gweithwyr trosglwyddo allweddol wedi chwarae rhan bwysig wrth helpu pobl ifanc i gael mynediad at amrywiaeth o weithgareddau cymdeithasol, diwylliannol a chwaraeon. Fodd bynnag, ar ôl gadael y coleg, disgrifiwyd yr amrywiaeth o weithgareddau a phrofiadau yr oedd modd i bobl ifanc gael mynediad atynt fel 'cyfyngedig' ym mhob un o'r pum ardal beilot.

*Cefnogi'r broses o drosglwyddo i fyw'n annibynnol*

3.6 Roedd nifer o ffactorau wedi dylanwadu ar yr effaith a gafodd y gweithwyr trosglwyddo allweddol o ran byw'n annibynnol, gan gynnwys i ba raddau yr oedd y bobl ifanc am fod yn annibynnol. Mewn rhai cynlluniau peilot, lle bo'n briodol, roedd y gweithwyr trosglwyddo allweddol wedi chwarae rôl ddylanwadol wrth gefnogi pobl ifanc i fyw'n annibynnol a/neu helpu i newid agweddau a disgwyliadau eu rhieni a'u gofalwyr.

3.7 Er gwaethaf y problemau yr oedd llawer o'r bobl ifanc wedi'u cael, a'r ofn yr oeddent yn aml yn ei deimlo am y dyfodol, roedd y mwyafrif o'r rheiny a

gafodd eu cyfweld yn ystod yr astudiaeth hon yn teimlo’n hapus gyda’u bywydau.

**Y manteision i deuluoedd**

3.8. Roedd y mwyafrif llethol o rieni a gofalwyr yn gadarnhaol iawn am weithio trosglwyddo allweddol. Ym mhob un o’r pum achos, roedd tystiolaeth bod y cynlluniau peilot wedi tynnu pwysau oddi ar rieni, gan leihau’r amser a’r egni yr oedd yn rhaid iddynt ei gyfeirio tuag at reoli cyfnod trosglwyddo’r person ifanc.

*Effaith a gwerth cynlluniau a chynllunio trosglwyddo*

3.9. Er bod y mwyafrif o rieni a gofalwyr yn gwerthfawrogi'r gweithiwr trosglwyddo allweddol ac yn fodlon â'r cynllun trosglwyddo, mewn rhai ardaloedd peilot, teimlai rhwng traean a hanner ohonynt nad oedd y person ifanc wedi'i baratoi'n ddigonol ar gyfer y cyfnod trosglwyddo. Roed nifer o ffactorau yn cyfrannu at hyn:

- mewn llawer o achosion, nid oedd y gweithwyr trosglwyddo allweddol wedi dechrau gweithio gyda'r bobl ifanc tan eu bod ar fin gadael yr ysgol, neu wrthi'n gadael;
- teimlai llawer o rieni a gofalwyr nad oedd ganddynt ddigon o wybodaeth;
- roedd llawer o rieni a gofalwyr yn poeni am ddyfodol a oedd un anorfod yn ansicr.

3.10. Roedd y rhieni a'r gofalwyr a gafodd eu cyfweld yn teimlo bod yr angen am weithio allweddol yn un parhaus, ac y dylai'r gefnogaeth ymateb i anghenion yn lle dod i ben pan fyddai'r bobl ifanc yn cyrraedd oedran benodol, yn unol â therfynau oedran y gefnogaeth.

**Y manteision i'r wladwriaeth**

*Effaith cynllunio sy'n canolbwyntio ar unigolyn ar wasanaethau*

3.11. Roedd y cyfranogwyr a oedd yn ymwneud â darparu gwasanaethau yn anghytuno am werth ac effaith cynllunio sy'n canolbwyntio ar unigolyn. Roedd bron yr holl bobl broffesiynol a oedd yn defnyddio cynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn teimlo'n gadarnhaol amdano. I'r gwrthwyneb, roedd pobl broffesiynol nad oedd yn ymwneud yn uniongyrchol â chynllunio sy'n canolbwyntio ar unigolyn yn aml yn fwy amheus am ei werth, gan wneud sylwadau am ba mor anodd yw hi i ddefnyddio canlyniadau'r broses mewn prosesau asesu a chynllunio presennol, sy'n canolbwyntio ar y gwasanaeth yn hytrach na'r unigolyn.

*Effaith gweithio trosglwyddo allweddol ar weithio mewn partneriaeth*

3.12. Roedd rhieni, gofalwyr a phobl broffesiynol yn sôn yn gyson am gysylltiadau gwael rhwng gwasanaethau plant a gwasanaethau oedolion, gan nodi bod hyn yn her i'r cynlluniau peilot. Gwelwyd ei bod yn arbennig o bwysig i alinio'r meini prawf cymhwysedd, a chynllunio'n well ar gyfer cefnogaeth ar draws y gwasanaethau. Roedd rhywfaint o dystiolaeth i ddangos bod gweithio trosglwyddo allweddol wedi helpu i fynd i'r afael â rhai agweddau ar hyn. Fodd bynnag, roedd effeithiolrwydd gweithio trosglwyddo allweddol yn cael ei lesteirio gan gysylltiadau gwael rhwng gwasanaethau plant a gwasanaethau oedolion.

**Y manteision i gymdeithas**

3.13. Prin iawn oedd y manteision penodol i'r gymdeithas a nodwyd gan yr astudiaeth, ac eithrio'r manteision i bobl ifanc, eu teuluoedd a'r wladwriaeth. Fodd bynnag, mae'n bosibl y gallai'r cynlluniau peilot, o'u rhoi yn y cyd-destun cywir, esgor ar fanteision i gymdeithas yn y dyfodol wrth i'r bobl ifanc fynd yn hŷn. Er enghraifft, pe bai rhai o'r bobl ifanc yn gallu cyfrannu'n fwy at eu cymunedau o ganlyniad i'r gefnogaeth a gawsant, bydd hynny'n helpu i greu cymdeithas fwy integredig.

## 4. Costau gweithio trosglwyddo allweddol

**Y gost i bobl ifanc a'u gofalwyr neu eu rhieni**

4.1. Yr unig gostau penodol ar bobl ifanc a'u teuluoedd a nodwyd gan yr astudiaeth oedd eu hamser. Fodd bynnag, gan fod rhai o'r bobl ifanc wedi dewis cymryd rhan mewn gweithgareddau ychwanegol, megis gweithgareddau hamdden, roedd rhai costau yn deillio o hynny, megis costau teithio.

**Y gost i gymdeithas**

4.2. Ni nodwyd unrhyw gostau penodol ar y gymdeithas, ar wahân i'r costau ar y bobl ifanc, eu teuluoedd a'r wladwriaeth (a drafodir isod).

**Y gost i'r wladwriaeth**

4.3. Canolbwyntiodd yr astudiaeth ar dri math o gost i'r wladwriaeth:

- costau sefydlu – y costau sy'n gysylltiedig â sefydlu cynllun gweithio trosglwyddo allweddol;
- costau gweithredu – y costau sy'n gysylltiedig â rhoi cynllun gweithio trosglwyddo allweddol ar waith;
- costau dilynol – y costau dilynol ar wasanaethau eraill yn sgil cynllun gweithio trosglwyddo allweddol (e.e. lle bo where a gweithiwr trosglwyddo allweddol yn gwneud cyfeiriad (*referral*) i wasanaeth arall).

**Crynodeb o gostau sefydlu a chostau gweithredu, gan gynnwys costau uned**

4.4. Mae Tabl 1 yn crynhoi'r costau sefydlu a'r costau gweithredu ar gyfer pob ardal beilot. Nid oes modd cymharu'r costau yn uniongyrchol, gan fod rhai ardaloedd wedi darparu mwy o fanylion nag eraill – ac rydym wedi cynnwys y manylion hyn lle eu bod ar gael. Er enghraifft, mae costau Gwynedd yn uwch gan eu bod wedi cynnwys swydd swyddog cynllunio sy'n canolbwyntio ar unigolyn yn eu cyllideb. Pe na bai'r swydd hon wedi'i chynnwys (nid oedd yr un o'r cynlluniau peilot eraill wedi cynnwys costau ar gyfer swydd o'r fath) byddai costau gweithredu Gwynedd ar gyfer cyfnod y peilot yn gostwng o fwy na £100,000. Mae cyfanswm y costau wedi'u crynhoi i'r fil agosaf yn y tabl.

4.5. Y gost gymedrig amhwysol fesul achos, fesul blwyddyn, ac eithrio'r costau sefydlu ar gyfer y pedair ardal beilot y mae gennym ddigon o ddata ar eu cyfer, yw £3,404, gan godi i £3,819 o gynnwys y costau sefydlu. Mae'r costau hyn yn uwch o lawer na'r gost gymedrig o £1,890 fesul achos, fesul blwyddyn

(gan gynnwys costau grŵp llywio[2]) a gyfrifwyd gan Sloper et al (2010) yn astudiaeth y *Social Policy Research Unit* o effeithiau a chostau cefnogaeth trosglwyddo. Fodd bynnag, o gynnwys yr holl gyfrifiadau cymharol, mae costau dau o'r ardaloedd gwasanaeth a gafodd eu cynnwys yn astudiaeth y *Social Policy Research Unit* yn uwch na chostau gweithredu (h.y. ac eithrio'r costau sefydlu) tair o'r ardaloedd peilot (Ynys Môn, Gwynedd a Sir Benfro).

[2] Roedd yr astudiaeth yn cynnwys rhai costau yn cynnwys costau'r grwpiau llywio a rhai costau lle nad oedd costau'r grŵp llywio wedi'u cynnwys. Rydym wedi nodi'r costau gan gynnwys costau'r grwpiau llywio, gan ei bod yn haws cymharu'r costau hynny yn uniongyrchol â'r costau a gyfrifir gan yr astudiaeth hon.

**Tabl 1. Brasamcan o gyfanswm y gost fesul achos, fesul blwyddyn**

| Ardal | Brasamcan o'r costau sefydlu | Brasamcan o'r costau gweithredu dros oes y prosiect | Cyfanswm o'r costau (sefydlu a gweithredu) dros oes y prosiect | Cyfanswm y bobl ifanc a gefnogir | Cyfnod (misoedd) | Brasamcan o'r costau fesul person ifanc, fesul blwyddyn, ac eithrio costau sefydlu | Brasamcan o'r costau fesul person ifanc, fesul blwyddyn, yn cynnwys costau sefydlu |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ynys Môn | £32,000 | £185,000 | £217,000 | 23 | 24 | £4,022 | £4,717 |
| Ceredigion | £51,000 | ddim yn berthnasol | ddim yn berthnasol | 40 | | ddim yn berthnasol | ddim yn berthnasol |
| Gwynedd | £47,000 | £577,000 | £624,000 | 75 | 36 | £2564 | £2,773 |
| Consortiwm Sir Fynwy[3] | £44,000 | £444,000 | £488,000 | 36 | 29 | £5,103 | £5,609 |
| Sir Benfro | £30,000 | £231,000 | £261,000 | 60 | 24 | £1,925 | £2,175 |

[3] Mae'r costau hyn yn uwch na'r costau fesul achos a gyfrifir gan Gonsortiwm Sir Fynwy yn eu hadroddiad prosiect terfynol (Cyngor Sir Mynwy, n.d. b). Y rheswm dros hyn yw bod y costau yn seiliedig dim ond ar gyflogau'r rheolwr prosiect a'r gweithwyr trosglwyddo allweddol (gan eithrio, er enghraifft, costau cyfarfodydd a hyfforddiant). Dim ond cyfran o'r cyflog y maent yn ei chynnwys, sef cyfran yn seiliedig ar yr frasamcan o'r amser a dreuliwyd yn gweithio'n gyda'r bobl ifanc a'u teuluoedd – sef 70% o amser y cydlynydd trosglwyddo ac 20% o amser y rheolwr prosiect. Rhydd hyn ffigur blynyddol o £81,755, sydd, o'i rannu rhwng y 36 o bobl ifanc a gafodd eu cefnogi mewn blwyddyn, yn rhoi cost fesul achos o £2,270 y flwyddyn.

# 5. Casgliad

## Gweithio trosglwyddo allweddol a chynllunio sy'n canolbwyntio ar unigolyn

5.1. Mae'r adroddiad hwn wedi amlinellu manteision y gefnogaeth a'r gydlyniaeth a gynigir gan weithwyr trosglwyddo allweddol a'r manteision o fabwysiadu dull o gynllunio sy'n canolbwyntio ar unigolyn. Y nod oedd edrych ar y manteision hyn yng nghyd-destun profiad pobl ifanc a'u teuluoedd o'r cyfnod trosglwyddo ac effaith y manteision hyn ar ganlyniadau'r cyfnod trosglwyddo.

## Gwella'r profiad o'r cyfnod trosglwyddo

5.2. Canfu'r astudiaeth fod gweithio trosglwyddo allweddol yn cynnig manteision pwysig i'r mwyafrif o bobl ifanc. Mae'r rhan fwyaf o bobl ifanc yn gwerthfawrogi'r gefnogaeth emosiynol ac ymarferol a gynigir gan y gweithiwr trosglwyddo allweddol, a hynny yn ystod cyfnod anodd o'u bywydau.

5.3. Canfu'r astudiaeth fod y prosiectau wedi gwella profiad y rhan fwyaf o bobl ifanc o'r cyfnod o drosglwyddo o'r ysgol i'r coleg, ac wedi gwella profiadau'r rheiny sydd wrthi, neu wedi, trosglwyddo o addysg i fywyd fel oedolyn.

5.4. Dywedodd yr holl bobl ifanc a'r teuluoedd a gafodd eu cyfweld, a chyfran sylweddol o'r rheiny a arolygwyd gan y prosiectau, fod y gweithwyr trosglwyddo allweddol wedi helpu i roi mwy o wybodaeth, a gwell wybodaeth iddynt nag yr oeddent wedi'i chael o'r blaen, a'u bod yn teimlo eu bod yn cael gwell gefnogaeth. Roedd y bobl ifanc a'r teuluoedd o'r farn bod yr wybodaeth ychwanegol yn debygol o fod wedi gwneud y profiad yn llai poenus.

9.1. Mae trosglwyddo yn cynnwys ansicrwydd, a dim ond hyn a hyn y gall gweithiwr trosglwyddo allweddol ei wneud i leddfu'r ansicrwydd hynny. Mewn llawer o achosion, ni fu modd i'r gweithwyr trosglwyddo allweddol sicrhau bod

tryloywder ac eglurdeb am y penderfyniadau a gafodd eu gwneud adeg y trosglwyddo, neu fod digon o rybudd yn cael ei roi am y penderfyniadau. Er mwyn gwneud y cyfnod trosglwyddo yn llai poenus, mae angen gwella'r cynllunio hirdymor, gan sicrhau bod penderfyniadau allweddol yn cael eu gwneud ymhell o flaen llaw'r cyfnod trosglwyddo. Yn ogystal, rhaid i'r bobl ifanc a'u teuluoedd gael eu cynnwys gymaint ag sy'n bosibl yn y prosesau penderfynu, gan sicrhau eu bod yn cael gwybod pa bryd y bydd penderfyniad yn cael ei wneud a'r rhesymau y tu ôl i'r penderfyniad hwnnw.

**Achosion lle bo'r effaith ar y profiad o drosglwyddo yn gyfyngedig**

5.5. Mae tystiolaeth o'r arolygon, a gynhaliwyd gan y prosiectau peilot, yn dangos bod nifer bach o'r bobl ifanc, rhieni a gofalwyr, heb ymgysylltu'n llawn â'r gwasanaeth gweithio trosglwyddo allweddol. Mae tystiolaeth o gonsortiwm Sir Fynwy, o ble daw'r dystiolaeth gyfoethocaf, yn awgrymu tri rheswm bras pam fod rhai pobl ifanc, eu rhieni a'u gofalwyr, heb ymgysylltu â'u gweithiwr trosglwyddo allweddol, gan leihau'r manteision a oedd ar gael iddynt:

- nid oedd rhai pobl ifanc yn gweld angen am weithiwr trosglwyddo allweddol. Nodwyd yn arbennig bod pobl ifanc ag anhwylder sbectrwm awtistiaeth yn grŵp a oedd weithiau'n ei chael hi'n anodd cydnabod neu ddeall eu hanghenion o ran cefnogaeth, ac felly roedd yn anodd ymgysylltu â hwy;
- rhieni a gofalwyr nad oeddent yn ymgysylltu'n gryf yn nhrosglwyddiad y person ifanc, gan gynnwys y rheiny odd ag anawsterau dysgu, problemau iechyd a/neu anawsterau cymhleth i'w rheoli yn eu bywydau eu hunain;
- achosion lle bo gweithiwr proffesiynol eisoes yn cyflawni rôl gweithio allweddol *de facto*, a lle y byddai cyflwyno gweithiwr allweddol arall i'r teulu wedi ychwanegu cymhlethdod diangen.

**Dylanwad dull o weithredu sy’n canolbwyntio ar unigolyn tuag at weithio trosglwyddo allweddol ar y canlyniadau i bobl ifanc**

5.6. Mewn cyferbyniad â’r dystiolaeth gref a nodir uchod o ddylanwad cadarnhaol gweithio trosglwyddo allweddol ar *brofiad* pobl ifanc anabl a’u teuluoedd o drosglwyddo, mae tystiolaeth o’i ddylanwad ar *ganlyniadau* trosglwyddo yn fwy cyfyngedig.

**Costau a manteision gweithio trosglwyddo allweddol**

5.7. Cyfyngedig yw’r costau y mae gweithio trosglwyddo allweddol yn eu rhoi ar bobl ifanc ac ar eu rhieni a’u gofalwyr. Ni chodir tâl ar bobl ifanc am ddefnyddio’r gwasanaeth. Er bod yn rhaid i bobl ifanc, eu rhieni a’u gofalwyr dreulio amser yn cyfrannu at y broses gynllunio, mae’r rhan fwyaf yn sôn eu bod wedi mwynhau’r profiad (er nad yw hyn yn dileu’r gost o gyfrannu).

5.8. Yn yr ardaloedd peilot, mae gweithio trosglwyddo allweddol yn cael ei ddarparu'n ychwanegol i waith gwasanaethau presennol; nid yw'n cymryd lle’r gwasanaethau hyn. Mae’r costau i’r wladwriaeth yn ymwneud yn bennaf â darparu’r ‘haen’ ychwanegol hon o wasanaeth.

5.9. Hyd yma, cymharol gyfyng fu manteision gweithio trosglwyddo allweddol i’r wladwriaeth. Mae gweithio trosglwyddo allweddol wedi cyfrannu at wella’r prosesau cynllunio ac asesu, ac wedi gwella’r ffordd y mae rhieni yn ymgysylltu â gwasanaethau. Serch hyn, mae’r dystiolaeth yn awgrymu bod y prosiectau peilot wedi’i chael yn anodd pontio’r bwlch rhwng gwasanaethau plant a gwasanaethau oedolion. Ar ben hyn, mae’n bosibl y bydd llawer o’r manteision sy’n deillio o wella’r prosesau cynllunio ac asesu dim ond i’w gweld yn y tymor canolig neu’r tymor hwy.

5.10. Er bod y dystiolaeth yn fwy cyfyngedig, mae’r astudiaeth yn awgrymu bod y model nad yw’n seiliedig ar weithiwr trosglwyddo allweddol yn esgor ar lai o fanteision heb leihau’r costau yn sylweddol. Mae hefyd yn debygol o fod yn llai cynaliadwy na model y gweithiwr trosglwyddo allweddol dynodedig.

*Gwerthuso'r costau a'r manteision net*

5.11. Mae'n anodd asesu effaith gweithio trosglwyddo allweddol ar ganlyniadau terfynol trosglwyddo ar hyn o bryd, gan mai ychydig iawn o'r bobl ifanc a gefnogwyd a oedd wedi cwblhau'r broses drosglwyddo. Ar y llaw arall, mae'r manteision mewn perthynas â'r broses neu'r profiad o drosglwyddo yn gliriach. O ystyried y straen, yr ansicrwydd a'r newidiadau lluosog sy'n gysylltiedig â throsglwyddo, ni ddylid tanbrisio effaith gwella'r profiad ohono.

5.12. Mae gweithio trosglwyddo allweddol a dulliau o weithredu megis cynllunio sy'n canolbwyntio ar unigolyn yn esgor ar fanteision pwysig, ond nid ydynt yn ateb gwyrthiol sy'n sicrhau bod gwasanaethau yn gweithio'n effeithlon ac yn effeithiol. Fodd bynnag, roedd optimistiaeth ymysg llawer o'r bobl broffesiynol a gafodd eu cyfweld y gallent gyfrannu at arbedion cost, o'u cyfuno â newidiadau eraill.

**Pa mor ddilys fyddai hi i gyflwyno a chynnal gweithio trosglwyddo allweddol yng Nghymru**

5.13. Mae'r astudiaeth hon wedi nodi manteision clir ar gyfer y mwyafrif o bobl ifanc a'u teuluoedd, yn ogystal â chostau sylweddol i'r wladwriaeth o ganlyniad i gyflwyno gweithio trosglwyddo allweddol. Mae'n hanfodol nodi bod yr astudiaeth hefyd yn awgrymu bod manteision gweithio trosglwyddo allweddol a'r arbedion cost posibl, wedi'u cyfyngu'n ddifrifol gan ffactorau strwythurol. Mae'r gwaith parhaus i ddiwygio'r fframwaith statudol ar gyfer pobl ifanc ag anghenion addysgol arbennig yn ceisio mynd i'r afael â rhai o'r problemau strwythurol hyn, yn arbennig mewn perthynas ag asesu a chynllunio anghenion, a gweithio mewn partneriaeth i ddiwallu'r anghenion hynny.

5.14. O ystyried natur 'estynedig' neu 'dameidiog' y trosglwyddo, nododd yr astudiaeth y gallai fod achos i ymestyn y gefnogaeth i bobl ifanc 25 oed ac o bosibl, y tu hwnt i'r oedran hwnnw. Mae'n debygol y byddai anghenion cefnogaeth pobl ifanc dros 20 oed yn llai dwys ac yn tueddu i leihau fwy fyth

dros amser, ac y byddai dwysedd ac amlder y gefnogaeth a gynigir gan y gweithiwr trosglwyddo allweddol – sef y brif gost o ddarparu'r gwasanaeth – yn llai hefyd.

**Meysydd ar gyfer ymchwil bellach**

5.15. Mae'r astudiaeth wedi tynnu sylw at nifer o feysydd lle mae angen ymchwil bellach. Mae hyn yn cynnwys mwy o ymchwil i:

- effaith ac effeithiolrwydd y model o weithio trosglwyddo allweddol nad yw'n seiliedig ar weithiwr trosglwyddo allweddol dynodedig;
- cost-effeithiolrwydd perthynol y model o weithio trosglwyddo allweddol a reolir gan awdurdodau lleol a'r model a reolir yn annibynnol;
- cost-effeithiolrwydd ymestyn gweithio trosglwyddo allweddol i'r pwynt lle mae pobl ifanc yn cael eu setlo i fywyd sefydlog a chynaliadwy fel oedolyn. Mewn rhai achosion, gallai hyn olygu cefnogaeth i bobl ifanc hyd at 26 oed, neu tu hwnt, pe bai angen;
- effeithiolrwydd y broses o gynllunio gwasanaethau oedolion mewn perthynas ag anghenion pobl ifanc wrth iddynt nesáu at 18 oed, gan gynnwys trosglwyddo gwybodaeth am anghenion pobl ifanc o'r gwasanaethau plant i'r gwasanaethau oedolion;
- ffyrdd o wella effaith gweithio trosglwyddo allweddol ar ganlyniadau'r broses drosglwyddo, gan gynnwys modelau effeithiol o weithio rhwng asiantaethau a gweithio aml-asiantaeth;
- pa mor effeithiol yw rhaglenni presennol sy'n canolbwyntio ar roi profiad gwaith i bobl ifanc sydd ag anghenion dwys a chymhleth, a'u paratoi ar gyfer y byd gwaith;
- i ba raddau y mae darpariaeth addysg ffurfiol ac anffurfiol, a darpariaeth gymdeithasol, greadigol a chwaraeon i bobl ifanc ag anghenion cymhleth sydd wedi gadael addysg bellach, yn diwallu eu hanghenion;
- i ba raddau y mae'r trefniadau cynllunio ac asesu presennol yn cyfyngu'r potensial i ddefnyddio dulliau sy'n canolbwyntio ar unigolyn;
- ffyrdd o gael mwy o eglurdeb am drosglwyddo, gan gynnwys sut i sicrhau bod llwybrau drwy'r broses drosglwyddo yn fwy clir a hygyrch i bobl ifanc

a'u teuluoedd, er mwyn i bobl wybod pa opsiynau fydd ar gael, a chynllunio ymlaen llaw ar eu cyfer.

## Llyfryddiaeth

Yr holl gyfeiriadau gwe yn gywir, 31 Awst 2012

Care Co-ordination Network United Kingdom (n.d.) *What is Key Working?* Ar gael drwy: http://ccnukorguk.site.securepod.com/ccnuk/body.asp?id=2

Yr Adran Plant, Ysgolion a Theuluoedd a'r Adran Iechyd (2007) *A Transition Guide for all Services: key information for professionals about the transition process for disabled young people*, Llundain: Yr Adran Plant, Ysgolion a Theuluoedd /Adran Iechyd. Ar gael drwy: http://www.pmldnetwork.org/resources/Transition_Guide.pdf

Cyngor Sir Mynwy (n.d. b) *Transition Project Evaluation Report.* Dogfen heb ei chyhoeddi.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2004) *Cod Ymarfer Anghenion Addysgol Arbennig Cymru,* Caerdydd: Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Ar gael drwy: http://wales.gov.uk/topics/educationandskills/publications/guidance/specialeduneedscop/?lang=cy

National Assembly for Wales (2007) *Y Pwyllgor Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau, Adolygiad Polisi Anghenion Addysgol Arbennig, Rhan 3: Trosglwyddo*, Caerdydd: Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Ar gael drwy: http://www.assemblywales.org/a418a2221ff4ec27fb94740522d38822.pdf

Y Brifysgol Agored (n.d.) *Models of Disability*. Ar gael drwy: http://www.open.ac.uk/inclusiveteaching/pages/understanding-and-awareness/models-of-disability.php

Sloper, P., Beecham, J., Clarke, S., Franklin, A., Moran, N. a Cusworth, L. (2010) *Models of Multi-Agency Services for Trosglwyddo to Adult's Services for Disabled*

*Young People and those with Complex Health Needs: impact and costs*. Caerefrog: SPRU, Prifysgol Caerefrog.

Swyddfa Archwilio Cymru (2007) *Arfer da mewn Cyllido Anghenion Addysgol Arbennig*. Caerdydd: Swyddfa Archwilio Cymru. Ar gael drwy: www.wao.gov.uk/assets/welshdocuments/SEN_funding_cym.pdf

Llywodraeth Cynulliad Cymru (n.d) *Model Cymdeithasol o Anabledd*. Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru. Ar gael drwy: http://wales.gov.uk/topics/equality/rightsequality/disability/socialmodel/?lang=cy

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2006) *Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Plant, Pobl Ifanc a'r Gwasanaethau Mamolaeth yng Nghymru,* Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru. Ar gael drwy: http://www.wales.nhs.uk/sites3/Documents/441/EnglishNSF_amended_final.pdf

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2010) *Adroddiad y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar gyfer Cyllido Anghenion Dysgu Ychwanegol Ôl-16 mewn Ysgolion ac Addysg Bellach,* Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru. Ar gael drwy: http://dera.ioe.ac.uk/1865/1/101122post16alearningreporten.pdf